

**Dweud eich dweud**  
**Have your say**

Arolwg Cenedlaethol Cymru  
National Survey for Wales



**Comisiynydd y  
Gymraeg**  
**Welsh Language  
Commissioner**




**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Arolwg Defnydd Iaith Adroddiad Technegol 2014-15

Tachwedd 2015



**Tim Hanson, TNS BMRB**  
**Sam Sullivan, TNS BMRB**

Barn yr ymchwilydd a geir yn yr adroddiad hwn, nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru na Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Martin Parry  
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffon: 0300 025 0373  
E-bost: [dataiaithgymraeg@cymru.gsi.gov.uk](mailto:dataiaithgymraeg@cymru.gsi.gov.uk)

Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, 26 Tachwedd 2015

© Hawlfraint y Goron 2015



Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol.

[www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/)

## Cynnwys

1	Cefndir ac Amcanion .....	2
2	Dyluniad y Sampl .....	4
3	Datblygu'r holiadur a'i gynnwys .....	5
4	Casglu Data.....	7
5	Ffigurau gwaith maes a chyfraddau ymateb.....	12
6	Paratoi data.....	4
7	Pwysoli .....	6

# 1 Cefndir ac Amcanion

## Hanes yr Arolwg

- 1.1 Mae Arolwg Defnydd Iaith 2014-15 (yr Arolwg) yn barhad o ymchwil a wnaed ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) rhwng 2004 a 2006. Dros gyfres o dri arolwg, ceisiodd y Bwrdd wybodaeth ar bwy sy'n defnyddio'r Gymraeg, gyda phwy, pryd, a faint y maent yn defnyddio'r iaith. Trefnwyd yr arolygon hyn i ategu'r Arolwg Byw yng Nghymru a gynhaliwyd rhwng 2004 a 2006 gan Uned Ddata Llywodraeth Leol - Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- 1.2 Yr Arolwg Byw yng Nghymru a ddarparodd fframwaith y sampl ar gyfer yr arolygon yn 2004-2006 (hynny yw, y bobl a bennwyd fel siaradwyr Gymraeg yn ystod yr Arolwg Byw yng Nghymru).
- 1.3 Gallwch gael rhagor o fanylion am arolwg 2004-06 o Archif Data'r Deyrnas Unedig.<sup>1</sup>

## Cefndir Arolwg 2014-15

- 1.4 Ail-gomisiynwyd yr Arolwg Defnydd Iaith yn 2013, ar ran Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Bu cyfnod newydd yr arolwg bara am ddwy flynedd, o 2013 hyd 2015. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion arolwg 2014-15.
- 1.5 Prif amcan yr Arolwg yw ceisio gwybodaeth ar bwy sy'n defnyddio'r Gymraeg, sut, pryd, a faint y maent yn defnyddio'r iaith.
- 1.6 Penderfynwyd, yn hytrach na chynnal yr Arolwg ar wahân, y byddai'n fwy darbodus ac effeithlon ei gynnal fel elfen ychwanegol i Arolwg Cenedlaethol Cymru.

---

<sup>1</sup> [http://doc.ukdataservice.ac.uk/doc/7477/mrdoc/pdf/7477\\_methodoleg\\_yn\\_gymraeg.pdf](http://doc.ukdataservice.ac.uk/doc/7477/mrdoc/pdf/7477_methodoleg_yn_gymraeg.pdf)

- 1.7 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg wyneb-yn-wyneb hap-debygolrwydd ar raddfa fawr a gyflawnir gan TNS BMRB a Beaufort Research ar ran Llywodraeth Cymru. Dechreuwyd y gwaith maes ym mis Ionawr 2012 ac roedd yn arolwg parhaus tan fis Mawrth 2015, gyda set newydd o aseiniadau bob mis.
- 1.8 Defnyddiwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru i ddarparu sampl ar gyfer yr Arolwg Defnydd Iaith. Caiff y broses o recriwtio ymatebwyr yr Arolwg Defnydd Iaith ei hesbonio mewn mwy o fanylder ym Mhennod 4.

### **Adroddiad Technegol Arolwg Cenedlaethol Cymru - rhannau perthnasol**

- 1.9 Oherwydd y ffordd y mae'r arolwg wedi'i weinyddu, mae llawer o'r manylion yn ymwneud ag Arolwg Defnydd Iaith 2014-15 wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Technegol a baratowyd ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15. Ceir cyfeiriadau unigol yn y penodau canlynol.

## 2 Dyluniad y Sampl

### Trosolwg o ddull samplu Arolwg Cenedlaethol Cymru

- 2.1 Mae esboniad llawn o'r dull samplu a ddefnyddiwyd ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru i'w weld yn Adroddiad Technegol 2014-15.<sup>2</sup> Mae crynodeb o'r dull hwnnw'n dilyn.
- 2.2 Roedd manyleb Arolwg Cenedlaethol Cymru yn nodi y dylai'r arolwg fod yn gynrychioliadol o oedolion 16 oed neu fwy sy'n byw mewn aelwydydd preifat. Y gofyniad blynyddol oedd am sampl haenedig, un cam, ar hap o gyfeiriadau ledled Cymru, wedi'i dynnu o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post defnyddwyr bychain, sy'n berchen i'r Post Brenhinol. O fewn pob aelwyd yn y sampl, cynhaliwyd cyfweiliad unigol gydag un oedolyn 16 oed neu fwy. Pan yr oedd aelwyd yn cynnwys mwy nag un oedolyn, dewiswyd oedolyn ar hap i gymryd rhan o bob aelod o'r aelwyd sy'n 16 oed neu'n hŷn.
- 2.3 Er mwyn bodloni'r gofynion o ran y sampl, cytunwyd y byddai sampl o gyfeiriadau nad ydynt wedi'u clystyru yn cael ei lunio. Tynnwyd yr holl sampl ar gyfer bob blwyddyn adrodd mewn un cam a chaiff ei ddyrannu i bob chwarter yn gyntaf, ac yna i bob mis o fewn pob chwarter.
- 2.4 Er mai'r nod gwreiddiol ar ddechrau'r cylch arolygu oedd cyflawni samplau cyfartal o 600 o gyfweiliadau ym mhob awdurdod lleol bob blwyddyn, arweiniodd yr wybodaeth a gafwyd trwy ddwy flynedd cyntaf yr arolwg (ee effeithiau dylunio ar lefel awdurdod lleol) at addasu'r targed hwn. Yn y pen draw, ar gyfer arolwg 2014-15 gosodwyd targedau cyfweiliad ar gyfer pob ALI, gyda'r nod o gyflawni meintiau sampl effeithiol o 450 ym mhob ALI.
- 2.5 O fewn pob awdurdod lleol, dewiswyd y sampl yn systematig gyda chyfwng sefydlog. Heblaw am awdurdodau lleol, nid oedd unrhyw

---

<sup>2</sup> <http://llyw.cymru/docs/caecd/research/2014/140917-national-survey-wales-technical-report-2013-14-en.pdf> (Saesneg yn unig)

haeniad penodol pellach o'r sampl. Oherwydd bod y cyfeiriadau wedi'u trefnu yn ôl cod post o fewn awdurdod lleol, bydd sampl systematig gyda chyfwng samplo bychan, yn cael ei haenu (yn oblygedig) fesul cymdogaeth a bydd yn ddaearyddol gynrychioliadol bob amser.

Canlyniad hyn, yn ymarferol, yw bod y cyfeiliornad samplu yn llai (o'i gymharu â sampl sydd wedi'i reoli llai) ar gyfer unrhyw fesuriadau sy'n amrywio'n sylweddol rhwng cymdogaethau.

2.6 Tynnwyd y sampl o'r ffeil cyfeiriadau cod post gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn seiliedig ar fanyleb y cytunwyd arni rhwng TNS BMRB a Llywodraeth Cymru.<sup>3</sup>

2.7 Y gyfradd ateb darged ar gyfer blwyddyn adrodd 2014-15 oedd 70%. Wrth gyfrifo nifer y cyfeiriadau i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol eu tynnu ym mhob Awdurdod Lleol, rhoddwyd ystyriaeth i'r targed cyfweiliad unigol ar gyfer pob ALI. Ar gyfer pob ALI defnyddiwyd effeithiau dylunio 2012-13 yn ogystal â chyfraddau ymateb a chyfraddau pren marw o bob chwarter cyflawn yr arolwg i gyfrifo nifer y cyfweiliadau oedd eu hangen i gyflawni sampl effeithiol o 450 yn yr ALI hwnnw. Pennwyd nifer y cyfeiriadau i ddewis o fewn yr ALI yn unol â hynny.

2.8 Ar ôl tynnu'r cyfeiriadau, rhoddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y ffeil sampl llawn i TNS BMRB drwy drosglwyddiad ffeil diogel. Yna, TNS BMRB oedd yn gyfrifol am drefnu a dyrannu'r sampl yn barod ar gyfer y maes gwaith.

2.9 Ar ôl i TNS BMRB dderbyn y ffeil sampl llawn, crëwyd ffeil sampl llai gan gynnwys cyfeiriadau i'w cyflwyno drwy gydol y flwyddyn. Dewiswyd niferoedd i gyflawni sampl effeithiol o 450 o gyfweiliadau fesul awdurdod lleol. Amcangyfrifwyd y gyfradd ymateb dybiedig ar sail y chyfraddau

---

<sup>3</sup> Tynnwyd y sampl gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol gan ddefnyddio'r ffeil cyfeiriadau cod post a'u Ffeil Cyfeiriadau Defnyddwyr Cyffredin, a sicrhodd na fyddai unrhyw aelwyd yn cael ei dewis ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd eisoes wedi ei dewis ar gyfer unrhyw rai o ystod o arolygon mawr eraill y Swyddfa Ystadegau Gwladol o fewn y tair blynedd ddiwethaf. Hefyd, roedd hyn yn sicrhau na fyddai cyfeiriadau'r sampl yn cael eu dewis ar gyfer arolygon mawr eraill y Swyddfa Ystadegau Gwladol na chymau dilynol Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf.

ymateb a welwyd ym mhob awdurdod lleol ar draws C1-C4 yn arolwg 2012-13 a C1-C2 yn arolwg 2013-14. Gweithredwyd un o dair cyfradd ymateb dybiedig: 73% ar gyfer awdurdodau lleol â chyfradd gyfartalog o 73% neu fwy; 70% ar gyfer awdurdodau lleol â chyfradd gyfartalog o rhwng 68% and 72%; a 67% ar gyfer awdurdodau lleol â chyfradd gyfartalog o 67% neu lai. Y gyfradd gyfartalog o fewn pob awdurdod ar draws C0-C3 oedd y gyfradd anefnyddiol.

2.10 Datblygodd TNS BMRB ddaearyddiaeth ardal bwrpasol yng Nghymru a oedd yn golygu bod pob 'uned ardal' a) yn cynnwys digon o gyfeiriadau i'w samplu i fod yn gyfwerth, yn fwy neu lai, ag un aseiniad gwaith maes, a b) yn synhwyrol yn ddaearyddol fel aseiniad.<sup>4</sup> Crëwyd yr unedau ardal gan ddefnyddio Ardaloedd Allbwn. Yn wreiddiol, y bwriad oedd defnyddio Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, ond byddai hyn wedi golygu gormod o amrywiaeth o ran nifer y cyfeiriadau ym mhob aseiniad, yn enwedig yn yr awdurdodau lleol llai o faint.

2.11 Ar ôl creu'r unedau, fe'u trefnwyd fesul gwerthoedd uned ardal crynswth.<sup>5</sup> Ar ôl eu haenu, fe'u dyrannwyd yn systematig i bedwar chwarter blwyddyn adrodd 2014-15 (Chwarteri 1-4).<sup>6</sup> Roedd unrhyw unedau ardal a ddyrannwyd i Chwarter 1 yn arolwg 2013-14 yn cael eu dyrannu i Chwarter 1 ym mlwyddyn adrodd 2014-15, gyda'r un patrwm yn cael ei ailadrodd ar gyfer Chwarteri 2-4. Mae'r dull hwn yn sicrhau y bydd unrhyw bedwar clwstwr dilynol o ddata yn cael ei ddat-glystyru'n ffurfiol.

---

<sup>4</sup>Roedd hyn yn golygu, i'r graddau yr oedd yn bosibl, fod cyfeiriadau ym mhob aseiniad yn cael eu clystyru mewn ffordd a oedd yn lleihau'r pellter yr oedd yn rhaid i'r cyfnewlyd ei deithio rhyngddynt, a sicrhau nad oedd nifer y cyfeiriadau yn amrywio'n sylweddol o aseiniad i aseiniad.

<sup>5</sup>Y gwerthoedd uned ardal a ddefnyddiwyd oedd sgoriau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a pha mor drefol oedd yr uned ardal.

<sup>6</sup>Roedd hyn yn golygu cymryd pob aseiniad o fewn pob awdurdod lleol, eu trefnu fesul gwerthoedd uned ardal crynswth cyfartalog, a'u dyrannu i'r chwarteri.



- 2.12 Ar ôl dyrannu aseiniadau i chwarteri, fe'u dyrannwyd ar hap i fis o fewn y chwarter. Gwnaed hyn gan sicrhau ar yr un pryd fod gan bob awdurdod lleol nifer gyfartal, fwy neu lai, o bwyntiau ym mhob mis a bod pob mis yn cael fwy neu lai'r un nifer o bwyntiau sampl.
- 2.13 Fel y nodir uchod, roedd maint yr aseiniadau'n amrywio'n seiliedig ar y ddaearyddiaeth bwrpasol a ddatblygwyd gan TNS BMRB. Yn 2014-15, roedd gan bob aseiniad rhwng 17 a 34 cyfeiriad, a maint cymedr aseiniad oedd 24 o gyfeiriadau. Roedd naw aseiniad o bob deg (90%) yn cynnwys rhwng 20 a 28 o gyfeiriadau. Rhoddwyd cyfanswm o 994 o aseiniadau yn 2014-15.

### **Addasu'r sampl**

- 2.14 Addaswyd niferoedd y sampl a gyflwynwyd ar sawl adeg wahanol yn ystod blwyddyn yr arolwg.
- 2.15 Hanner ffordd drwy waith maes Chwarter 2, cynhaliwyd adolygiad o'r cynnydd hyd hynny ar lefel awdurdod lleol. Canfu'r adolygiad hwn bod y gyfradd ymateb yn is na'r disgwyl mewn wyth awdurdod lleol, gan arwain at ddiffyg niferoedd yn erbyn y targed yn debygol.
- 2.16 O ganlyniad, penderfynwyd addasu nifer y cyfeiriadau a gyflwynwyd o fewn yr wyth awdurdod lleol oedd yn tanberfformio ar gyfer Chwarter 3, gyda'r nod o atgyfnerthu nifer y cyfweiliadau a gyflawnwyd, l'r gwrthwyneb, roedd cyfanswm cyfweiliadau blynyddol a ragwelwyd ar gyfer Ynys Môn yn uwch na'r disgwyl. O'r herwydd, tynnwyd nifer fechan o gyfeiriadau o sampl Chwarter 3 ar gyfer yr awdurdod lleol hwn.

**Tabl 2.1 – Addasiadau a wnaed i gyfeiriadau a gyflwynwyd (Medi 2014)**

<b>Awdurdod lleol</b>	<b>Addasiad i'r sampl</b>	<b>Cyfanswm nifer y cyfeiriadau a gyflwynwyd (sampl Chwarter 3)</b>
Blaenau Gwent	0	1,074
Pen-y-bont ar Ogwr	+60	1,096
Caerffili	0	1,027
Caerdydd	0	1,155
Sir Gaerfyrddin	+62	1,121
Ceredigion	0	1,145
Conwy	+54	1,086
Sir Ddinbych	0	1,021
Sir y Fflint	0	1,027
Gwynedd	0	1,201
Ynys Môn	-48	1,151
Merthyr Tudful	+63	1,235
Sir Fynwy	0	1,112
Castell-nedd Port Talbot	+53	1,028
Casnewydd	+47	1,132
Sir Benfro	0	1,187
Powys	0	1,108
Rhondda Cynon Taf	0	1,177
Abertawe	0	1,104
Bro Morgannwg	0	1,003
Torfaen	+43	1,046
Wrecsam	0	1,045
<b>CYFANSWM</b>	<b>+334</b>	<b>24,281</b>

2.17 Gwnaed addasiad arall cyn cychwyn gwaith maes Chwarter 4. Yng nghanol mis Rhagfyr daeth i'r amlwg nad oedd cwrdd â tharged cyfanswm cyfweliadau blynyddol yn debygol, oherwydd diffyg niferoedd cyfweliadau yn ystod tri chwarter cyntaf arolwg 2014-15. O'r herwydd,

gwnaed penderfyniad i gyflwyno holl sampl wrth gefn ar gael i waith maes Chwarter 4.

2.18 Ystyriwyd nifer o ffactorau wrth benderfynu cyflwyno'r sampl wrth gefn. Roedd ychwanegu'r cyfeiriadau hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar gyfraddau ymateb ac yn debygol o arwain at gwmpas anwastad ar hyd Cymru, gan i'r cyfeiriadau gael eu cyflwyno ymhob awdurdod lleol. Fodd bynnag, rhoddwyd blaenoriaeth i gyflawni cyfanswm y cyfweliadau.

2.19 O ganlyniad i holl addasiadau'r sampl dros flwyddyn yr arolwg, mae'r sampl terfynol a gyflwynwyd ymhob chwarter fel a ganlyn:

**Tabl 2.2 – Sampl terfynol a gyflwynwyd yn ôl chwarter**

<b>Chwarter</b>	<b>Cyfeiriadau a gyflwynwyd</b>	<b>% y cyfeiriadau a gyflwynwyd</b>
1	6,065	23.8
2	5,984	23.5
3	6,350	24.9
4	7,039	27.6
<b>CYFANSWM</b>	<b>25,438</b>	<b>100</b>

2.20 Mae Tabl 2.3 yn dangos nifer terfynol y cyfeiriadau o fewn pob awdurdod lleol ar gyfer blwyddyn arolwg 2014-15.

**Tabl 2.3 - Sampl terfynol Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15**

<b>Awdurdod Lleol</b>	<b>Cyfeiriadau a ddyrannwyd</b>
Blaenau Gwent	1,123
Pen-y-bont ar Ogwr	1,158
Caerffili	1,062
Caerdydd	1,217
Sir Gaerfyrddin	1,192
Ceredigion	1,181
Conwy	1,142
Sir Ddinbych	1,070
Sir y Fflint	1,082
Gwynedd	1,253
Ynys Môn	1,199
Merthyr Tudful	1,295
Sir Fynwy	1,174
Castell-nedd Port Talbot	1,075
Casnewydd	1,180
Sir Benfro	1,242
Powys	1,148
Rhondda Cynon Taf	1,239
Abertawe	1,160
Bro Morgannwg	1,067
Torfaen	1,088
Wrecsam	1,091
<b>CYFANSWM</b>	<b>25,438</b>

2.21 Ym mhob cyfeiriad, roedd gofyn i gyfwelwyr gyflawni detholiad tri cham er mwyn pennu'r person cywir i'w gyfweld:

- Dethol uned annedd (mewn cyfeiriadau ac iddynt fwy nag un uned annedd)
- Dethol aelwyd (mewn unedau annedd ac iddynt fwy nag un aelwyd)

- Dethol person (mewn aelwydydd sy'n cynnwys mwy nag un oedolyn 16 oed neu fwy)

2.22 Gellir dod o hyd i'r holl fanylion am sut y gwnaed y dewisiadau hyn yn Adroddiad Technegol Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15.

### **Rhagdybiadau gwreiddiol ynghylch y boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg**

2.23 Er mwyn cyfrifo'r niferoedd yr oeddem yn debygol o allu eu cyflawni yn yr arolwg, gwnaed amcangyfrifiadau ar y gyfran debygol o siaradwyr Cymraeg y byddai Arolwg Cenedlaethol Cymru yn eu canfod.

2.24 Mae Tabl 2.4 isod yn nodi'r rhagamcanion gwreiddiol a wnaed ynghylch y boblogaeth debygol o bobl sy'n medru'r Gymraeg, a'r nifer wirioneddol a gyflawnwyd.

**Tabl 2.4 – Rhagamcanion ynghylch y boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg, a'r nifer wirioneddol a gyflawnwyd**

	<b>Rhagamcan Gwreiddiol</b>	<b>Nifer a Gyflawnwyd</b>
<b>Aelwydydd a gyfwelwyd yn ystod Arolwg Cenedlaethol Cymru</b>	14,500	14,285
<b>Oedolion a bennwyd</b>	27,405	26,497
<b>Nifer cyfartalog yr oedolion fesul aelwyd</b>	1.89	1.85
<b>Oedolion a bennwyd sy'n siarad Cymraeg</b>	7,125	5,959
<b>% yr oedolion sy'n siarad Cymraeg</b>	26%	22%
<b>Plant 3-15 oed a bennwyd</b>	5,945	6,272
<b>Nifer cyfartalog o blant 3-15 oed fesul aelwyd</b>	0.41	0.44
<b>Plant 3-15 oed a bennwyd sy'n siarad Cymraeg</b>	2,675	2,287
<b>% y plant 3-15 oed a bennwyd sy'n siarad Cymraeg</b>	45%	36%

2.25 Rhoddir esboniad mwy manwl o'r broses o bennu siaradwyr Cymraeg ym Mhennod 4.

### **3 Datblygu'r holiadur a'i gynnwys**

#### **Trosolwg**

- 3.1 Roedd yr Arolwg Defnydd Iaith yn cynnwys dau holiadur ar wahân - holiadur oedolion (i ymatebwyr 16 oed a throsodd) a holiadur plant a phobl ifanc (i ymatebwyr 3-15 oed). Mae'r ddau'n ymdrin â'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg mewn amryw sefyllfaoedd. Mae copïau o'r ddau holiadur yn <http://llyw.cymru/statistics-and-research/Welsh-language-use-survey/?lang=cy>.
- 3.2 Roedd y ddau holiadur yn ddwyieithog, gan roi'r dewis i'r ymatebwyr gwblhau'r holiadur yn Gymraeg neu yn Saesneg. Lluniwyd llyfryn yn cynnwys y cwestiynau yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda'r dyluniad wyneb i waered fel bo'r ddwy iaith yn dechrau gyda chlawr ac yn cwrdd yn y canol. Roedd yr holiadur oedolion yn cynnwys 12 ochr (yn y ddwy iaith, gan gynnwys cyfarwyddiadau) ac roedd yr holiadur pobl ifanc yn cynnwys 8 ochr.

#### **Cynnwys yr holiaduron**

- 3.3 Datblygwyd cynnwys yr holiadur ar y cyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru. Roedd y cwestiynau gan fwyaf heb newid ers arolwg 2004-6. Gallwch ddod o hyd i'r cwestiynau hyn ym mhenodau 20 a 21 yr [adroddiad](#) a gyhoeddwyd ar ganlyniadau arolwg 2004-06.
- 3.4 Fel y nodwyd uchod, cynhyrchwyd yr holiaduron yn Gymraeg ac yn Saesneg.

#### **Ffurf a Gwedd**

- 3.5 Argraffwyd yr holiaduron ar bapur gwahanol liw - oren ar gyfer yr holiadur oedolion a glas ar gyfer yr holiadur pobl ifanc. Y nod oedd ei gwneud yn haws i gyfwelwyr weld y gwahaniaeth rhwng y gwahanol fersiynau wrth roi'r holiadur i bobl, a lleihau'r risg o roi'r fersiwn anghywir i ymatebwr.

3.6 Y tîm dylunio yn TNS BMRB ddyluniodd yr holiaduron gan geisio eu gwneud yn glir a diddorol. Y prif ystyriaethau oedd:

- sicrhau nad oedd y dyluniad yn rhy 'brysur', a gwneud defnydd effeithiol o'r lle oedd ar gael;
- datblygu dyluniad lliw a fyddai'n helpu ymatebwyr i wahaniaethu rhwng cwestiynau unigol er mwyn ateb yr holiadur i gyd; a
- sicrhau fformat cyson drwyddi draw i helpu ymatebwyr i gwblhau'r holiadur.

3.7 Cytunwyd ar yr holiaduron terfynol rhwng Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a TNS BMRB.

## 4 Casglu Data

### Y Broses Ddethol

- 4.1 I fod yn gymwys ar gyfer yr Arolwg Defnydd Iaith, rhaid oedd i'r ymatebwyr fod yn 3 oed neu'n hŷn ac yn gallu siarad Cymraeg. Roedd yr holiadur a gwblhawyd yn dibynnu ar oedran yr unigolyn. Roedd yr holiadur pobl ifanc ar gyfer pobl ifanc 3-15 oed ac roedd ymatebwyr 16 oed a throsodd yn cwblhau'r holiadur i oedolion.
- 4.2 Recriwtiwyd ymatebwyr i'r arolwg drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru. Casglodd Arolwg Cenedlaethol Cymru wybodaeth am bob unigolyn oedd yn byw gyda'r ymatebwr fel rhan o'r un aelwyd.
- 4.3 Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, gofynnir i'r ymatebwr a yw'n gallu siarad Cymraeg. Gall cyfwelwyr nodi un cod o dri ateb posibl
1. Gallaf
  2. Na allaf
  3. Rhywfaint o allu siarad Cymraeg (DIGYMELL YN UNIG)
- 4.4 At ddibenion yr Arolwg Defnydd Iaith, roedd unrhyw ymatebwyr a oedd yn ateb gyda naill ai Cod 1 neu God 3 yn cael eu hystyried fel siaradwyr Cymraeg ac yn gymwys i wneud yr holiadur.
- 4.5 Mewn aelwydydd sy'n cynnwys mwy nag un person 3 oed neu fwy, gofynnwyd cwestiwn tebyg i weld pa aelodau eraill o'r aelwyd sy'n gallu siarad Cymraeg:

*Yn nawr hoffem ofyn os all aelodau eraill eich cartref siarad Cymraeg.*

*Ydy [enw] yn gallu siarad Cymraeg?*

1. *Ydy*
2. *Nac ydy*
3. *Ddim yn gwybod*



- 4.6 Ystyriwyd pob aelod o'r aelwyd y nodwyd yr ateb "Ydy" ar ei gyfer fel siaradwr Cymraeg ac felly'n gymwys i dderbyn holiadur.

### **Cyflwyno'r holiaduron**

- 4.7 Roedd y cyfwelwyr wyneb-yn-wyneb yn gyfrifol am roi'r holiaduron i bob unigolyn cymwys ar ddiwedd cyfweliad Arolwg Cenedlaethol Cymru. Cafodd esboniad llawn o'r Arolwg Defnydd Iaith a'r gofynion o ran y cyfwelwyr eu rhoi ym mhrif sesiwn friffio Arolwg Cenedlaethol Cymru yr oedd pob cyfwelydd yn bresennol ynddi. Mae manylion cynnwys y sesiwn friffio yn Adroddiad Technegol Arolwg Cenedlaethol Cymru.
- 4.8 Rhoddwyd nifer o holiaduron yr Arolwg Defnydd Iaith i bob cyfwelydd oedd yn gweithio ar Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ogystal ag amlenni rhabost. Roedd y nifer a roddwyd i bob cyfwelydd yn ddibynnol ar faint o siaradwyr Cymraeg y disgwyliwyd eu gweld yn yr ardal.
- 4.9 Rhoddwyd cyfarwyddyd i gyfwelwyr beidio â chyfeirio at yr Arolwg Defnydd Iaith tan fod holl adrannau Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi eu cwblhau. Roedd dwy ystyriaeth wrth benderfynu gwneud hyn.
- 4.10 Yn gyntaf, roedd angen sicrhau nad oedd gweinyddiaeth yr Arolwg Defnydd Iaith yn effeithio ar awydd ymatebwyr i gymryd rhan ym mhrif gyfweliad yr Arolwg Cenedlaethol Cymru. Y farn oedd y gallai cyflwyno'r Arolwg Defnydd Iaith cyn prif gyfweliad Arolwg Cenedlaethol Cymru wneud i ymatebwyr feddwl ei fod yn ormod o ymrwymiad a gwneud iddynt fod yn llai awyddus i gymryd rhan. Hefyd, gallai gael effaith andwyol o ran aelwydydd nad ydynt yn siarad Cymraeg gan wneud i Arolwg Cenedlaethol Cymru ymddangos yn llai perthnasol iddynt hwy.
- 4.11 Yn ail, y farn oedd y byddai'r cyfwelydd wedi cael cyfle i sefydlu cydberthynas â'r ymatebydd erbyn diwedd cyfweliad Arolwg Cenedlaethol Cymru, ac felly y byddai'r ymatebydd yn fwy tebygol o gytuno i gwblhau'r holiadur defnydd iaith.

4.12 Yn union ar ôl y cwestiwn olaf yng nghyfweliad Arolwg Cenedlaethol Cymru, byddai'r cyfwelwyr yn darllen cyflwyniad i'r Arolwg Defnydd Iaith a fyddai'n ymddangos ar sgrin:

*Mae Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru yn cynnal Arolwg Defnydd Iaith. Maent yn gofyn i siaradwyr Cymraeg mewn cartrefi sydd wedi cymryd rhan yn yr Arolwg Cenedlaethol Cymru i gwblhau holiadur byr. Mae'r holiadur yn 6 tudalen i oedolion a 4 tudalen i blant (oed 3 a throsodd). Bydd angen i chi ei gwblhau a'i ddychwelyd i TNS BMRB mewn amlen rhabdost o fewn y pythefnos nesaf.*

4.13 Ar y sgrin, roedd y cyfwelydd yn gweld rhestr o bob unigolyn yn yr aelwyd a oedd yn gymwys i dderbyn holiadur defnydd iaith. Wrth enw pob unigolyn, roedd yr wybodaeth ganlynol yn cael ei dangos:

- Rhif cyfres yr aelwyd
- Rhif person
- Pa holiadur y dylai'r person ei dderbyn (un ar gyfer oedolyn neu un ar gyfer person ifanc)

4.14 Ar gyfer pob unigolyn, gofynnwyd i'r cyfwelydd nodi a oedd yr holiadur wedi cael ei dderbyn.

4.15 Yna, roedd gofyn i'r cyfwelwyr nodi enw'r unigolyn, rhif cyfres yr aelwyd, a rhif y person ar ddau glawr yr holiadur priodol (h.y. y clawr Saesneg a'r clawr Cymraeg), cyn ei roi i'r ymatebydd. Rhoddwyd amlen radbost ar gyfer pob holiadur er mwyn iddynt ei ddychwelyd.

4.16 Defnyddiwyd techneg ychydig yn wahanol yn ystod mis cyntaf yr arolwg, lle'r oedd sgript Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cwestiwn yn gofyn a oedd ymatebydd yn barod i dderbyn yr holiaduron. Newidiwyd y ffordd o weithio i sicrhau cyfradd dderbyn uwch. Dilëwyd y cwestiwn a chyfarwyddwyd cyfwelwyr i adael holiaduron gyda phob unigolyn cymwys heblaw bod yr ymatebydd dan sylw yn ei wrthod yn benodol.

## **Pecyn atgoffa drwy'r post**

- 4.17 Fel y nodir uchod, gofynnwyd i ymatebwyr yr Arolwg Defnydd Iaith ddychwelyd eu holiaduron o fewn pythefnos i'w derbyn. Anfonwyd pecyn atgoffa drwy'r post at y rheini nad oeddent wedi cwblhau a dychwelyd eu holiaduron. Roedd y pecyn yn cynnwys holiadur newydd a llythyr yn sôn am yr arolwg ac yn gofyn eto iddynt gymryd rhan.
- 4.18 Cafodd pecynnau atgoffa eu hanfon drwy'r post yn wythnosol drwy gydol y gwaith maes.

## **Atgoffa dros y ffôn**

- 4.19 O ran ymatebwyr nad oeddent, yn dal i fod, wedi dychwelyd holiadur ar ôl cael pecyn atgoffa drwy'r post, cawsant eu hatgoffa dros y ffôn yn ogystal. Yn naturiol, roedd hyn yn ddibynnol ar gael rhif ffôn dilys gan yr ymatebydd Arolwg Cenedlaethol Cymru. Roedd hyn yn golygu na lwyddwyd i atgoffa pawb nad oedd wedi dychwelyd eu holiaduron dros y ffôn.
- 4.20 Gwnaethpwyd y galwadau atgoffa yn fisol gan aelod o banel cyfwelwyr ffôn TNS BMRB. O ganlyniad, roedd y cyfnod rhwng derbyn yr holiadur cyntaf a derbyn galwad ffôn atgoffa yn amrywio i bob ymatebydd yn dibynnu ar ddyddiad y cyfweiliad Arolwg Cenedlaethol Cymru gwreiddiol. Ond gwnaethpwyd pob galwad atgoffa o leiaf pythefnos ar ôl i'r ymatebydd dderbyn ei becyn atgoffa drwy'r post (h.y. pedair wythnos ar ôl derbyn yr holiadur yn y lle cyntaf). Y cyfnod hiraf posibl rhwng derbyn yr holiadur yn y lle cyntaf a derbyn galwad ffôn atgoffa oedd 8 wythnos.
- 4.21 Dim ond un alwad ffôn a wnaethpwyd i aelwydydd a chanddynt fwy nag un holiadur heb ei ddychwelyd. Ym mhob achos, gofynnodd y cyfwelydd i gael siarad â'r ymatebydd a gymerodd ran yng nghyfweliad Arolwg Cenedlaethol Cymru, p'un a oeddent yn siarad Cymraeg ai peidio. Yna, darllenodd y cyfwelydd sgript fer gan roi enwau pob aelod o'r aelwyd nad oeddent wedi dychwelyd holiadur hyd yn hyn.

4.22 Nid oedd unrhyw gwestiynau i'r ymatebwyr eu hateb – unig bwrpas yr alwad oedd atgoffa pobl am yr Arolwg Defnydd Iaith a gofyn i bob ymatebydd ddychwelyd ei holiadur cynt gynted a phosibl.

## 5 Ffigurau gwaith maes a chyfraddau ymateb

- 5.1 Mae'r ffigurau isod yn ymwneud ag Arolwg Defnydd Iaith 2014-15. Mae'n cynnwys yr holl ymatebwyr a recriwtiwyd drwy gyfweiliadau a gynhaliwyd o fewn blwyddyn Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2014-15 (1 Ebrill 2014 – 12 Ebrill 2015). Er mwyn cael eu cynnwys, roedd angen i ymatebwyr ddychwelyd eu holiaduron erbyn 31 Mai 2015.
- 5.2 Cynhaliwyd cyfanswm o 14,285 o gyfweiliadau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15, gan gynnwys 32,769 o aelodau unigol o aelwydydd. Yn seiliedig ar yr ateb i'r cwestiynau perthnasol (gweler Pennod 4), nodwyd 8,463 o siaradwyr Cymraeg.
- 5.3 Mae Tabl 5.1 yn dangos y cyfraddau o ran derbyn, dychwelyd ac ymateb ar gyfer yr holiadur oedolion a'r holiadur plant yn yr Arolwg Defnydd Iaith. Cyfrifir y ffigurau hyn fel a ganlyn:
- Cyfradd dderbyn: y gyfran o unigolion cymwys a dderbyniodd holiadur;
  - Cyfradd ddychwelyd: y gyfran o'r holiaduron a ddsbarthwyd a gwblhawyd ac a ddychwelwyd; ac
  - Cyfradd ymateb: y gyfran o unigolion cymwys a gwblhaodd ac a ddychwelodd holiadur. Mae hyn yn gyfartal â'r gyfradd dderbyn wedi'i lluosio â'r gyfradd ddychwelyd.

**Tabl 5.1 – Cyfraddau derbyn, dychwelyd ac ymateb cyffredinol 2013-14 (ac eithrio ymatebwyr anghymwys)**

	Cymwys	Derbyniwyd	Dychwelwyd	Cyfradd dderbyn	Cyfradd ddychwelyd	Cyfradd ymateb
<b>Oedolion</b>	5,959	5,031	2,659	84%	53%	45%
<b>Plant</b>	2,287	1,834	668	80%	36%	29%
<b>CYFANSWM</b>	8,246	6,865	3,327	83%	48%	40%

- 5.4 O'r 3,327 ymatebydd, cwblhaodd 947 (28%) eu holiadur yn y Gymraeg tra chwblhaodd y 2,380 (72%) sydd yn weddill eu holiadur yn y Saesneg.
- 5.5 Oherwydd natur y broses recriwtio, darperir gwybodaeth am siaradwyr Cymraeg yn yr aelwyd gan yr ymatebydd ar ran aelodau eraill yr aelwyd. O ganlyniad, mae'n bosibl i holiadur gael ei roi i unigolion nad ydynt yn ystyried eu hunain i fod yn siaradwyr Cymraeg. Er mwyn gwneud yn iawn am yr anghysondeb posibl hwn, cafodd cwestiwn ei gynnwys ar ddechrau'r holiadur yn gofyn i bob ymatebydd Arolwg Defnydd Iaith a yw'n gallu siarad Cymraeg. Gofynnwyd i unrhyw un nad oedd yn siarad Cymraeg ddychwelyd yr holiadur heb ateb unrhyw gwestiynau eraill, er mwyn nodi nad oeddent mewn gwirionedd yn gymwys ar gyfer yr Arolwg Defnydd Iaith.<sup>7</sup>
- 5.6 Goblygiad arall o'r broses recriwtio ydy bod dosbarthiad yr holiaduron wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn yn naturiol yn cyd-fynd â dosbarthiad y cyfweiliadau a gyflawnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Fel a esboniwyd ym Mhennod 2, cyflwynwyd nifer o gyfeiriadau wrth gefn yn ystod Chwarter 4, a arweiniodd at gyflawni nifer uwch o gyfweiliadau tuag at ddiwedd y flwyddyn arolwg. Fel a ddangosir yn Nhabl 5.2, arweiniodd hyn at gynnydd yn nifer yr holiaduron a ddychwelwyd tuag at ddiwedd blwyddyn adrodd yr Arolwg.

---

<sup>7</sup> Yn y pen draw, nododd 269 o ymatebwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg a'u bod, felly, yn anghymwys ar gyfer yr arolwg.

**Tabl 5.2 – Holiaduron terfynol a ddychwelwyd yn ôl chwarter Arolwg Cenedlaethol Cymru**

Chwarter	Cyfweliadau Arolwg Cenedlaethol Cymru	Holiaduron yr Arolwg <sup>8</sup>	% yr holiaduron
1	3,016	638	19.2
2	3,490	931	28.0
3	3,158	700	21.0
4	4,621	1,058	31.8
<b>CYFANSWM</b>	<b>14,285</b>	<b>3,327</b>	<b>100.0</b>

5.7 Mae Tabl 5.3 yn dangos proffiliau demograffig unigolion cymwys, gan gymharu'r rhai a ymatebodd â'r rhai na ymatebodd.

**Tabl 5.3 – Proffil ymatebwyr/rhai na wnaeth ymateb i'r Arolwg**

	Ymatebwyr	Rhai na wnaeth ymateb
<b>Dynion</b>	42.9%	46.7%
<b>Merched</b>	57.1%	53.3%
<b>0-15</b>	12.4%	19.9%
<b>16-24</b>	36.3%	46.9%
<b>25-44</b>	25.7%	19.4%
<b>45-64</b>	13.3%	8.0%
<b>65-74</b>	7.0%	2.9%
<b>75+</b>	5.1%	2.7%
<b>Byw mewn ardal drefol<sup>9</sup></b>	43.0%	53.9%
<b>Byw mewn ardal wledig</b>	57.0%	46.1%
<b>Cartref 1 person</b>	15.5%	8.9%
<b>Cartref 2 berson</b>	32.7%	22.7%
<b>Cartref 3-4 person</b>	41.6%	49.1%
<b>Cartref 5-6 person</b>	9.2%	17.7%
<b>Cartref 7+ person</b>	1.0%	1.6%

<sup>8</sup> Mae'r ffigurau hyn yn cyfeirio at nifer holiaduron yr Arolwg a ddychwelwyd o bob cartref a gymerodd rhan yng nghyfweliadau Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ystod pob chwarter. Mae pob ffigur yn cynnwys rhai holiaduron a ddychwelwyd wedi gwaith maes y chwarter cyfatebol ddod i ben.

<sup>9</sup> Wedi ei seilio ar ddangosydd deilliadig DvUrbRur o set ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru.

5.8 Mae cyfanswm ffigurau gwaith maes ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf yr Arolwg i'w gweld yn Nhabl 5.4.

**Tabl 5.4 – Ffigurau gwaith maes cymharol: yr Arolwg 2013-14 a 2014-15**

	<b>Cymwys</b>	<b>Derbyniwyd</b>	<b>Dychwelwyd</b>	<b>Cyfradd dderbyn</b>	<b>Cyfradd ddychwelyd</b>	<b>Cyfradd ymateb</b>
<b>2013-14</b>	8,190	6,610	3,848	81%	58%	47%
<b>2014-15</b>	8,246	6,865	3,327	83%	48%	40%

5.9 Tra bo'r cyfraddau derbyn yn weddol gyson, gwelwyd gostyngiad yn y cyfraddau dychwelyd ac ymateb yn 2014-15. Gellid esbonio'r gostyngiad hyn yn rhannol gan ddsbarthiad anwastad cyfweliadau Arolwg Cenedlaethol Cymru blynyddol a ddisgrifiwyd uchod.

5.10 Roedd y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd holiaduron wedi eu cwblhau (31 Mai) yn berthnasol i'r holl holiaduron a gyflwynwyd yn 2014-15. O'r herwydd, cafodd y rhai a gafodd holiadur yn gynnar yn y flwyddyn gyfnod hirach i ymateb na'r rhai a gafodd holiadur tuag at ddiwedd y flwyddyn. Hefyd, gan bod cyfran uwch o gyfweliadau Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi eu cynnal yn ystod Chwarter 4 o'i gymharu â 2013-14, cyflwynwyd cyfran uwch na'r disgwyl o holiaduron yr Arolwg yn hwyrach yn ystod y gwaith maes, sef y cyfnod â'r cyfnod ymateb ychydig yn fyrrach.

5.11 Fel y disgwyl, roedd peth amrywiaeth o ran cyfraddau cymhwyster ar draws y 22 o awdurdodau lleol. Mae Tabl 5.5 yn dangos cyfraddau cymhwyster, derbyn, dychwelyd ac ymateb ar gyfer pob awdurdod lleol.



Tabl 5.5 - Cyfraddau cymhwyster, derbyn, dychwelyd ac ymateb Awdurdodau Lleol (ac eithrio ymatebwyr anghymwys)

Awdurdod Lleol	Cyfweliadau	Cyfanswm yr aelodau o aelwydydd	Cymwys	Derbyniwyd	Dychwelwyd	Cyfradd cymhwyster	Cyfradd dderbyn	Cyfradd dychwelyd	Cyfradd ymateb
Blaenau Gwent	656	1,472	137	127	32	9%	93%	25%	23%
Pen-y-bont ar Ogwr	700	1,652	230	196	98	14%	85%	50%	43%
Caerffili	636	1,438	168	146	66	12%	87%	45%	39%
Caerdydd	674	1,639	308	267	103	19%	87%	39%	33%
Sir Gaerfyrddin	569	1,286	621	466	239	48%	75%	51%	38%
Ceredigion	680	1,601	846	674	383	53%	80%	57%	45%
Conwy	583	1,309	471	415	201	36%	88%	48%	43%
Sir Ddinbych	643	1,425	477	428	215	33%	90%	50%	45%
Sir y Fflint	661	1,522	305	261	100	20%	86%	38%	33%
Gwynedd	666	1,522	1,122	938	580	74%	84%	62%	52%
Ynys Môn	707	1,610	967	755	422	60%	78%	56%	44%
Merthyr Tudful	725	1,704	225	205	52	13%	91%	25%	23%
Sir Fynwy	645	1,489	216	189	83	15%	88%	44%	38%
Castell-nedd Port Talbot	615	1,408	235	199	101	17%	85%	51%	43%
Casnewydd	648	1,488	141	116	35	9%	82%	30%	25%
Sir Benfro	663	1,484	248	217	109	17%	88%	50%	44%
Powys	592	1,261	299	247	118	24%	83%	48%	39%
Rhondda Cynon Taf	662	1,534	264	243	94	17%	92%	39%	36%
Abertawe	628	1,434	221	150	68	15%	68%	45%	31%
Tor-faen	637	1,463	211	171	55	14%	81%	32%	26%
Bro Morgannwg	633	1,458	220	183	56	15%	83%	31%	25%
Wrecsam	662	1,570	314	272	117	20%	87%	43%	37%
<b>CYFANSWM</b>	<b>14,285</b>	<b>32,769</b>	<b>8,246</b>	<b>6,865</b>	<b>3,327</b>	<b>25%</b>	<b>83%</b>	<b>48%</b>	<b>40%</b>

## **6 Paratoi data**

### **Codio**

- 6.1 Nid oedd yr Arolwg Defnydd Iaith yn cynnwys unrhyw gwestiynau cwbl benagored, ond roedd yn cynnwys dau gwestiwn gyda'r opsiwn 'Arall', lle gallai ymatebwyr ysgrifennu eu hymateb yn hytrach na dim ond dewis un o'r atebion oedd yno'n barod. Roedd y ddau gwestiwn yn yr holiadur oedolion, gydag un yn yr holiadur pobl ifanc. .
- 6.2 Roedd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn cael eu nodi gair am air a'u codio gan aelod o dîm codio TNS BMRB. Adolygwyd pob ateb ac, os oedd yn briodol, byddai'r codiwr yn dyrannu'r ymateb i un o'r codau ateb oedd yn bodoli eisoes. Roedd unrhyw ateb nad oedd yn bosib ei ddyrannu i ymateb oedd yn bodoli eisoes yn cael ei adael o dan 'Arall'.

### **Sganio**

- 6.3 Dychwelwyd yr holiaduron i ganolfan weithrediadau TNS BMRB yn Warwick. Derbyniwyd pob holiadur gan y tîm derbyn a gofnododd y rhif cyfres a rhif y person cyn anfon yr holiadur i gael ei sganio.
- 6.4 Rhoddwyd yr holiaduron drwy'r sganiwr i droi pob tudalen yn ffeil delwedd ddigidol. Caiff pob delwedd ei storio ar yriant cyfrifiadurol a rhoddir cyfeirnod delwedd unigryw iddi sy'n gysylltiedig â rhif cyfres yr ymatebydd. Yn ystod y sganio, caiff yr holl atebion yn yr holiadur eu cofnodi a'u troi'n ffeil data ar wahân.

### **Golygu data**

- 6.5 Gan nad yw holiaduron a lenwir gan ymatebwyr ar eu pen eu hunain yn cael eu monitro, roedd angen gweithredu proses golygu data ar yr holiaduron a ddychwelwyd er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gofnodwyd yn gyson ac yn gywir.
- 6.6 Gwnaed gwaith golygu i ddatrys enghreifftiau lle'r oedd yr holiadur i'w weld wedi'i lenwi'n anghywir; er enghraifft, lle'r oedd mwy nag un ateb

wedi'i gofnodi ar gyfer cwestiwn oedd angen un ateb. Roedd dau brif reswm fod hyn yn gallu digwydd. Y rheswm mwyaf cyffredin yw bod yr ymatebydd wedi dewis mwy nag un ateb. Fodd bynnag, weithiau gall y sganiwr weld marc bychan yn un o'r blychau ateb (er enghraifft, os yw croes o un blwch yn mynd drosodd i flwch arall) a chofnodi hwnnw fel ateb drwy gamgymeriad.

- 6.7 Pan fo nifer fawr o ymatebion amlgod anghywir (gelwir y rhain yn '*dirty responses*' yn Saesneg, neu'n 'atebion brwnt' yma), mae'n arfer safonol sefydlu set o reolau golygu a weithredir ar ôl hynny gydag unrhyw ddata brwnt. Paratôdd Comisiynydd y Gymraeg fanyleb golygu yn amlinellu sut y dylid golygu'r math yma o ymatebion. Gweithredwyd hyn ar y data terfynol gan y tîm ymchwil yn TNS BMRB.
- 6.8 Gweithredwyd cam arall o olygu ar gyfer yr enghreifftiau lle'r oedd ymatebydd wedi darparu ateb anghyson neu atebion oedd yn groes i'w gilydd. Er enghraifft, gall ymatebydd ddweud, fel ateb i un cwestiwn, nad yw'n siarad Cymraeg o gwbl ond dweud, fel ateb i gwestiwn arall, ei fod yn siarad yr iaith yn ddyddiol. Mae'r rheolau a ddefnyddiwyd i ddatrys hyn wedi'u hamlinellu yn y fanyleb olygu.

### **Allbynnu data**

- 6.9 Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg ddogfen manyleb data i TNS BMRB ar gyfer pennu'r ffurf a'r labeli i'w defnyddio o ran y data oedd i gael ei ddarparu.
- 6.10 Cynhyrchwyd data interim hanner ffordd drwy'r cyfnod casglu data ar ffurf dwy set ddata SPSS: un yn cynnwys data o'r holiadur oedolion ac un arall yn cynnwys data o'r holiadur pobl ifanc. Galluogodd hyn i TNS BMRB brofi'r broses o gynhyrchu data cyn cynhyrchu'r data'n derfynol.
- 6.11 Ar ddiwedd blwyddyn yr arolwg, cynhyrchwyd dwy set derfynol o ddata (oedolion a phobl ifanc). Roedd pob set ddata yn cynnwys newidynnau pwysoli; nodir esboniad pellach o hyn ym Mhennod 7.

## 7 Pwysoli

- 7.1 Mae'r strategaeth bwysoli ar gyfer data'r Arolwg Defnydd Iaith yn cynnwys pwysoliadau a gynhyrchwyd ar gyfer data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-14. Mae'r manylion llawn ynghylch sut y cynhyrchwyd y pwysoliadau hyn yn Adroddiad Technegol Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-14.
- 7.2 Gweithredwyd y pwysoliad a roddwyd i bob unigolyn yn yr aelwydydd a samplwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol Cymru ('WalesPopWeight') fel pwysoliad sylfaen ( $W_{base1}$ ) ar gyfer yr arolwg defnydd iaith.<sup>10</sup>
- 7.3 Yna, cyfunwyd y pwysoliad sylfaen ( $W_{base1}$ ) gyda phwysoliad ar gyfer tuedd ymateb unigol ( $W_{P(ateb)}$ ) i greu pwysoliad Arolwg Defnydd Iaith ( $W_{WLS-P}$ ). Roedd y pwysoliad ar gyfer tuedd ymateb unigol ( $W_{P(ateb)}$ ) yn gyfwerth ag un wedi'i rannu â'r tebygolrwydd rhagweledig o ymateb i'r Arolwg Defnydd Iaith. Amcangyfrifwyd tebygolrwydd ymatebion drwy fodel atchweliad logistig gyda set o briodoleddau hysbys ar gyfer unigolion ac aelwydydd yn gweithredu fel newidynnau rhagfynegi.
- 7.4 Roedd y diffiniad o 'ymateb' yn cynnwys (i) holiaduron wedi'u cwblhau gan ymatebwyr cymwys a (ii) holiaduron heb eu llenwi a ddychwelwyd gan ymatebwyr i ddatgan nad oeddent yn gymwys. Gan nad oedd statws cymhwyster y sawl nad oedd wedi ymateb yn hysbys, roedd angen cyfuno'r ymatebwyr cymwys a'r ymatebwyr anghymwys - o ran y model hwn - i gynnal cymesuredd rhwng y samplau a ymatebodd a'r samplau nas ymatebodd. Wrth ddadansoddi, wrth gwrs, hepgorir ymatebwyr anghymwys.

---

<sup>10</sup> Cynnyrch tri phwysoliad cydrannol oedd y pwysoliad sylfaen ( $W_{base1}$ ): (a) pwysoliad dylunio sy'n gwneud yn iawn am y tebygolrwydd o ddewis aelwydydd mewn ffordd nad yw'n hafal yn y sampl Arolwg Cenedlaethol Cymru a roddwyd; (b) pwysoliad tuedd ymateb sy'n rhoi pwysau mwy na'r cyfartaledd i ardaloedd sydd â chyfraddau ymateb llai na'r cyfartaledd; a (c) pwysau graddnodi sy'n alinio proffil aelwydydd a ymatebodd i Arolwg Cenedlaethol Cymru gyda set o ddata poblogaeth berthnasol (yn benodol, amcanestyniadau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2013 ar sail Cyfrifiad 2011).

7.5 I benderfynu pa newidynnau rhagfynegi i'w cynnwys yn ein model ar gyfer tueddiadau ymateb, profom gyfuniadau lluosog o newidynnau ymgeisydd gan geisio cael cydweddiad da â'n data arolwg heb ormod o newidynnau rhagfynegi. Dylai hyn arwain at fodel mwy cadarn nag un sydd wedi ei seilio ar gydweddiad i'r eithaf â'r sampl penodol hwn.

7.6 Y newidynnau ymgeisydd oedd:

- a) Defnyddiwyd pwysoliad 'SamplePopWeight' Arolwg Cenedlaethol Cymru i wneud i bobl yn y sampl adlewyrchu priodoleddau Cymru gyfan.
- b) A oedd unigolyn yn ymatebydd i Arolwg Cenedlaethol Cymru (hynny yw, yn hytrach nag aelod arall o'r aelwyd);
- c) Nifer y bobl yn yr aelwyd
- d) Oedran yr ymatebydd
- e) Rhyw'r ymatebydd
- f) Statws deiliadaeth yr ymatebydd
- g) A oedd yr aelwyd yn cynnwys unigolion o dan 5 oed
- h) A oedd yr aelwyd yn cynnwys unigolion o dan 16 oed
- i) A oedd yr aelwyd yn cynnwys unigolion o dan 19 oed
- j) A oedd yr aelwyd yn cynnwys unigolion dros 60 oed
- k) Awdurdod unedol lle mae'r aelwyd wedi ei lleoli
- l) Lefel Trefoli yr ardal lle mae'r aelwyd wedi ei lleoli
- m) Dosbarthiad 'Acorn' yr ardal lle mae'r aelwyd wedi ei lleoli
- n) Dosbarthiad amddifadedd lluosog cyffredinol yr ardal lle mae'r aelwyd wedi ei lleoli
- o) A yw'r aelwyd yn cynnwys ymatebydd i Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd yn deall Cymraeg llafar
- p) A yw'r aelwyd yn cynnwys ymatebydd i Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd yn gallu darllen Cymraeg
- q) A yw'r aelwyd yn cynnwys ymatebydd i Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd yn gallu ysgrifennu Cymraeg
- r) A yw'r aelwyd yn cynnwys ymatebydd i Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd yn 'rhugl yn y Gymraeg' yn erbyn y rhai oedd yn gallu siarad 'cryn dipyn o Gymraeg', yn erbyn y rhai oedd 'ddim ond yn gallu

siarad ychydig o Gymraeg' yn erbyn y rhai oedd 'ond yn gallu dweud ychydig o eiriau yn Gymraeg' neu yn 'methu siarad Cymraeg o gwbl'

- s) A yw'r aelwyd yn cynnwys ymatebydd i Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd yn siarad Cymraeg 'yn ddyddiol' yr erbyn 'wythnosol', yn erbyn 'llai aml nag wythnosol' yn erbyn 'byth'
- t) Termau rhyngweithio rhwng 'a yw'r unigolyn yn atebydd i Arolwg Cenedlaethol Cymru' a newidynnau o, p, q, r, ac s
- u) P'un ai bod pawb yn y cartref yn siarad Cymraeg yn hytrach na ffracsiwn o bobl y cartref

7.7 Yn y pen draw, defnyddiwyd yr holl newidynnau yn y model terfynol, ac eithrio:

- A oedd yr aelwyd yn cynnwys unigolion o dan 5 oed
- A oedd yr aelwyd yn cynnwys unigolion o dan 16 oed
- A oedd yr aelwyd yn cynnwys unigolion dros 60 oed
- A yw'r aelwyd yn cynnwys ymatebydd i'r Arolwg Cenedlaethol a oedd yn gallu darllen Cymraeg
- A yw'r aelwyd yn cynnwys ymatebydd i'r Arolwg Cenedlaethol a oedd yn 'rhugl yn y Gymraeg' yn erbyn y rhai oedd yn gallu siarad 'cryn dipyn o Gymraeg', yn erbyn y rhai oedd 'ddim ond yn gallu siarad ychydig o Gymraeg' yn erbyn y rhai oedd 'ond yn gallu dweud ychydig o eiriau yn Gymraeg' neu yn 'methu siarad Cymraeg o gwbl'

7.8 Ar ôl creu'r pwysoliad Arolwg Defnydd Iaith cychwynnol ( $W_{WLS-P}$ ) tynnwyd yr ymgeiswyr a oedd wedi datgan eu bod yn anghymwys o'r set data ac archwiliwyd dosbarthiad poblogaeth amcangyfrifedig yr hyn a oedd yn weddill.

7.9 Ar ôl pob cam o bwysoli a graddnodi, amcangyfrifwyd bod yr effaith dyluniad<sup>11</sup> canolrifol ar gyfer yr Arolwg Defnydd Iaith yn 1.84.<sup>12</sup>

7.10 Mae'r tablau yn cyflwyno dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg ar gyfer pobl dros 16 mlwydd oed ac o dan 16 mlwydd oed yn sampl yr Arolwg Defnydd Iaith.

**Tabl 7.1 – Targedau pwysoli'r Arolwg Defnydd Iaith ar gyfer oedolion 16 oed ac hŷn (amcangyfrifiad o Arolwg Cenedlaethol 2013-14)**

Grŵp	Poblogaeth darged
Benyw	222,339
Gwryw	283,910
<b>Cyfanswm</b>	<b>506,249</b>

Grŵp	Poblogaeth darged
16 i 18 mlwydd oed	39,471
19 i 24 mlwydd oed	56,195
25 i 30 mlwydd oed	47,749
31 i 35 mlwydd oed	39,688
36 i 40 mlwydd oed	36,863
41 i 45 mlwydd oed	39,761
46 i 50 mlwydd oed	37,378
51 i 55 mlwydd oed	35,595
56 i 60 mlwydd oed	37,475
61 i 65 mlwydd oed	33,991
66 i 70 mlwydd oed	31,186
71 i 75 mlwydd oed	22,042
76 i 80 mlwydd oed	17,857
81 i 97 mlwydd oed	26,657
Wedi ei wrthod	4,342
<b>Cyfanswm</b>	<b>506,249</b>

<sup>11</sup> Mae'r effaith dyluniad sydd wedi'i nodi yma yn un "diamod", os bydd "amodau" yn cael eu gweld yn cydberthyn i'r pwysau ar lefel cwestiwn penodol.

<sup>12</sup> Amcangyfrifwyd bod yr effaith dyluniad canolrifol yn  $1 + (\text{Gwriad safonol } W_{WLS} / o W_{WLS})^2$ .

**Tabl 7.1 – Targedau pwysoli'r Arolwg Defnydd Iaith ar gyfer oedolion 16 oed ac hŷn (amcangyfrifiad o Arolwg Cenedlaethol 2013-14) (parhaodd)**

<b>Ardal</b>	<b>Poblogaeth darged</b>
Ynys Môn	31,447
Gwynedd	77,680
Conwy	29,208
Sir Ddinbych	23,940
Sir y Fflint	17,655
Wrecsam	19,388
Powys	24,214
Ceredigion	31,610
Sir Benfro	16,692
Sir Gaerfyrddin	64,884
Abertawe	23,483
Castell-nedd Port Talbot	16,895
Pen-y-bont ar Ogwr	14,501
Bro Morgannwg	8,184
Caerdydd	44,461
Rhondda Cynon Taf	24,970
Merthyr Tudful	3,584
Caerffili	13,918
Blaenau Gwent	2,773
Tor-faen	5,411
Sir Fynwy	6,226
Casnewydd	5,126
<b>Cyfanswm</b>	<b>506,249</b>



**Tabl 7.2 – Dosbarthiad poblogaeth ar gyfer pobl 3-15 mlwydd oed sy'n siarad Cymraeg, wedi'u pwysoli**

<b>Grŵp</b>	<b>Poblogaeth darged</b>
Benyw	84,987
Gwryw	90,663
<b>Cyfanswm</b>	<b>175,650</b>

<b>Grŵp</b>	<b>Poblogaeth darged</b>
3 i 6 mlwydd oed	47,838
7 i 10 mlwydd oed	53,266
11 i 15 mlwydd oed	74,546
<b>Cyfanswm</b>	<b>175,650</b>

<b>Ardal</b>	<b>Poblogaeth darged</b>
Ynys Môn	5,767
Gwynedd	15,682
Conwy	6,284
Sir Ddinbych	5,440
Sir y Fflint	8,555
Wrecsam	7,656
Powys	5,494
Ceredigion	7,952
Sir Benfro	5,224
Sir Gaerfyrddin	14,936
Abertawe	7,482
Castell-nedd Port Talbot	6,174
Pen-y-bont ar Ogwr	6,757
Bro Morgannwg	3,755
Caerdydd	16,303
Rhondda Cynon Taf	17,480
Merthyr Tudful	2,060
Caerffili	10,275
Blaenau Gwent	2,634
Tor-faen	5,100
Sir Fynwy	7,278
Casnewydd	7,361
<b>Cyfanswm</b>	<b>175,650</b>